



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

## **Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Maesincla  
Maesincla  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1DF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor  
Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

## Cyd-destun

Mae Ysgol Maesincla wedi ei lleoli yn nhref Caernarfon yng Ngwynedd, gyda 270 o ddisgyblion 3 i 11 mlwydd oed ar y gofrestr yn cynnwys y plant oed meithrin. Mae'r ysgol dan reoleaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r gymuned drefol leol. Mae'r ardal yn un dan anfantais economaidd sylweddol ac wedi ei dynodi fel ardal Amcan Un. Mae bron y cyfan o'r disgyblion yn byw yn un o'r 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gan 44% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, sydd yn llawer uwch na'r ffigwr cenedlaethol. Mae rhwng 30% a 40% o'r disgyblion o gartrefi un rhiant, ac mae ychydig o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ofalwyr ifanc.

Ysgol Maesincla sydd â'r lefel uchaf o ran her yn y teulu o ysgolion. Mae lefel cinio ysgol di-dâl yr ysgol oddeutu ddwywaith yn uwch nag ymhob un o ysgolion eraill y teulu.

Ychydig iawn o'r disgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, gyda 74% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Mae 40% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, sydd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol, gyda 4% ar ddatganiad.

Mae'r ysgol wedi bod yn rhan o gynllun peilot y cyfnod sylfaen. Oherwydd hynny, nid oes canlyniadau asesuadau athro ar gyfer disgyblion saith mlwydd oed yn 2010.

Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers Medi 1999.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Maesincla yw £3,975 sy'n cymharu gydag uchafswm o £8,442 ac isafswm o £2,717 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 32ain uchaf o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- disgyblion yn gweithio'n dda ac cymryd diddordeb yn eu gwaith a dangos lefelau uchel o gymhelliant;
- presenoldeb a safonau ymddygiad yn dda iawn;
- y profiadau dysgu a'r addysgu yn perthnasu'n dda ag anghenion y disgyblion;
- systemau effeithiol wedi eu sefydlu i olrhain cynnydd disgyblion a darparu cymorth ychwanegol yn ôl yr angen; ac
- amgylchedd o ofal a chynhaliaeth yn treiddio holl fywyd a gwaith yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- y seiliau cadarn sydd wedi eu gosod mewn perthynas â lles disgyblion;
- yr ymrwymiad parhaus i wella'r gynhaliaeth i grwpiau bregus a diwallu anghenion disgyblion;
- y patrwm o welliant sylweddol yn safonau llythrennedd disgyblion;
- y modd y mae'r ysgol yn gweithio gydag ystod o bartneriaid; a'r
- blaenoriaethau priodol ar gyfer datblygiad pellach yn y cynllun datblygu ysgol.

## Argymhellion

Mae angen i'r ysgol:

- A1 sicrhau gwelliannau pellach yn safonau llythrennedd y disgyblion;
- A2 gwella cyflawniadau'r bechgyn;
- A3 lledaenu'r arfer dda yn ansawdd y marcio;
- A4 sicrhau bod y cynllunio ar gyfer gweithgareddau dysgu ar draws y cwricwlwm yn dangos yn glir y dilyniant a chynnydd yn y medrau; a
- A5 chryfhau trefniadau hunan-arfarnu, er mwyn mynd i'r afael ag anwastadrwydd yng nghyflawniadau'r disgyblion mewn gwersi ac yn eu gwaith ysgrifenedig.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei fonitro gan yr awdurdod lleol.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Digonol

Mae disgyblion, gan gynnwys rhai sy'n derbyn cinio'n ddi-dâl, yn gwneud cynnydd cyson ac, yn gyffredinol, yn cyflawni'n dda mewn gwersi yn ôl eu hoed a'u gallu. Mae hyn yn gyflawniad arwyddocaol o ystyried y lefelau uchel o amddifadedd a medrau isel rhan fwyaf y disgyblion adeg cychwyn yn yr ysgol.

Mae disgyblion yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn parchu cyfraniadau ei gilydd. Yn gyffredinol, maent yn gwneud cynnydd clir yn eu medrau siarad. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn y dosbarthiadau ac wrth chwarae a chyfathrebu â'i gilydd. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw disgyblion yn datblygu eu syniadau yn ddigonol gan nad ydynt yn cael eu herio'n ddigonol i feddwl a gwella ansawdd eu cyfraniadau. Mewn ychydig o wersi, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent oherwydd diffyg her.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn ysgrifennu dilyniant o frawddegau yn eu geiriau eu hunain ac yn dangos gafael ar atalnodi sylfaenol. Yn ystod cyfnod allweddol 2 mae disgyblion yn gwneud defnydd cyson o'r We a ffynonellau eraill i chwilio am wybodaeth. Maent hefyd yn gwneud cynnydd clir yn eu gallu i ysgrifennu'n estynedig i wahanol bwrpasau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bu gwelliant sylweddol yng nghyflawniadau disgyblion mewn ysgrifennu ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Yn 2010, roedd y canran a gyrhaeddodd lefel 4 neu uwch yn agos iawn i gyfartaledd y teulu o ysgolion. Er hynny, mae peth anwastadrwydd rhwng dosbarthiadau yn ansawdd y gwaith o ran cynnwys a chywirdeb mynegiant.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn darllen ar goedd yn ystyrion a hyderus yn Gymraeg a Saesneg. Bu patrwm o welliant mawr dros y pedair blynedd ddiwethaf yn niferoedd y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwylidig mewn darllen ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, mae canlyniadau profion darllen yn dangos bod gormod o ddisgyblion yn 11 mlwydd oed yn dal heb wneud y cynnydd disgwylidig o ran cywirdeb darllen. Mae disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer darllen yn gwneud cynnydd da.

Er y cynnydd mewn cyflawniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion yn saith ac yn 11 mlwydd oed yn parhau i fod ymhlith yr hanner isaf neu'r 25% isaf o'u cymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol a'r teulu o ysgolion. Dros gyfnod, nid oes digon o ddisgyblion wedi cyrraedd y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2, er y bu gwelliant.

Nid yw'r bechgyn yn 11 mlwydd oed yn gwneud cystal â'r merched yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu. Mae perfformiad y bechgyn yn sylweddol is na'r disgwyl o gymharu ag ysgolion eraill y teulu a ffigyrau cenedlaethol.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd priodol mewn perthynas â'u nodau addysgol unigol. Mae disgyblion ar ddatganiad o anghenion

arbennig yn gwneud cynnydd arwyddocaol o ran lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

### **Lles: Rhagorol**

O ystyried y lefelau uchel o amddifadedd ac ystod anghenion y disgyblion, mae'r hyn y mae'r ysgol yn ei gyflawni o ran datblygiad y disgyblion fel unigolion cyflawn a chyfrifol yn sylweddol.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn cytuno bod yr ysgol yn eu dysgu i gadw'n iach. Mae llawer o'r disgyblion yn manteisio ar y rhaglen o weithgareddau allgyrsiol mewn chwaraeon.

Mae presenoldeb disgyblion yn cymharu'n ffafriol iawn ag ysgolion â lefelau tebyg o brydau ysgol di-dâl, gyda'r ysgol ymhlith y 25% uchaf. Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn ymroi'n llawn i'w bywyd a gwaith. Maent yn falch iawn o'u hysgol ac yn gwrtais iawn wrth ymdrin â staff yr ysgol ac ymwelwyr. Dangosa'r disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu a diddordeb yn eu gwaith. Mae safonau ymddygiad yn dda iawn, gyda niferoedd gwaharddiadau yn isel.

Mae disgyblion yn ymateb yn dda i'r cyfleoedd i gynnig syniadau a gwneud penderfyniadau. Mae'r cyngor ysgol yn weithgar ac yn ymroi yn frwdfrydig i ganfod barn eu cyd-ddisgyblion. Mae'r cyngor wedi bod yn flaenllaw yn ei waith yn codi arian at y gost o greu cegin newydd i'r ysgol a chodi ymwybyddiaeth eu cyd-ddisgyblion o sut i fwyta'n iach. Yn sgil gwaith y pwyllgor chwaraeon, mae disgyblion yn cymryd rhan weithredol yn trefnu'r gemau buarth a chasglu adborth am glybiau ar ôl ysgol. Mae'r pwyllgor eco yn arwain y gwaith ail-gylchu wythnosol ac yn rhan o'r ymdrechion i arbed ynni a dŵr

Mae disgyblion sy'n rhan o'r grŵp maethu a'r grŵp sgiliau bywyd yn gwneud cynnydd sylweddol o ran eu medrau cymdeithasol a bywyd. Maent yn mynegi eu teimladau a'u gofidiau yn rheolaidd a gall yr ysgol ddangos tystiolaeth glir o welliant mawr o ran agweddau disgyblion at ddysgu a'u hunan ddelwedd. Mae'r cynllun 'Criw Clen' blwyddyn 6 yn meithrin gofal y disgyblion hŷn am eraill, gyda'r disgyblion yn ymateb yn aeddfed i'w cyfrifoldebau o ran trefnu ac arwain gemau buarth i'r plant iau.

Mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at wella eu dysgu eu hunain ac yn cydweithio â'i gilydd â lefel uchel o aeddfedrwydd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu yn ddysgwyr annibynnol ac yn unigolion hyderus a chyfrifol gyda sylfeini cadarn yn cael eu gosod ar gyfer dysgu gydol oes.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ystod o brofiadau dysgu yn bodloni anghenion disgyblion, cyflogwyr a'r gymuned yn llwyddiannus. Mae'r modd y mae profiadau dysgu'n diwallu anghenion penodol grwpiau a disgyblion unigol yn gryfder yn y ddarpariaeth.

Mae'r 'prynhawniau pleserus' am un prynhawn yr wythnos yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn nodwedd ragorol ar y ddarpariaeth sydd wedi ei rhannu ag ysgolion eraill. Mae'r flaengaredd hon yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddysgu defnyddio medrau mewn ystod eang o gyd-destunau ymarferol sy'n cynnwys coginio, cyfeiriannu, ffotograffiaeth a chynhyrchu cardiau o safon fasnachol fel rhan o ddatblygu medrau menter a busnes.

Mae cynlluniau gwaith yn nodi'r medrau pynciol a'r medrau allweddol i dderbyn sylw yn y profiadau dysgu. Eto, nid yw'r dilyniant yn y medrau'n cael ei nodi'n ddigon clir i sicrhau cynnydd yn y medrau allweddol yn y gwaith ar draws pynciau a meysydd dysgu'r cwricwlwm. Mae'r cwricwlwm ynghyd â'r amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir, yn helpu disgyblion i ddatblygu ystod o fedrau personol a chymdeithasol.

Mae ymweliadau â'r ysgol gan feirdd, ac artistiaid preswyl, actorion ac enwogion cenedlaethol yn gwneud llawer i hyrwyddo hunaniaeth Gymreig ymhlith y disgyblion. Mae'r dimensiwn Cymreig ac ymweliadau fel rhan o'r themâu dysgu yn rhan greiddiol o'r ddarpariaeth ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o'r ardal leol yn llwyddiannus.

Mae amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau dysgu yn cyfrannu'n dda at ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Er enghraifft, mae disgyblion yn tyfu llyisiau ac yn ailgylchu papur a chardfwrdd. Mae'r gwaith o godi arian ar gyfer menter 'Send a Cow', ynghyd â themâu rhyngwladol, yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o'r dimensiwn byd-eang.

### **Addysgu: Da**

Mae cydberthynas dda rhwng athrawon a disgyblion ac mae gwarsi wedi eu trefnu'n effeithiol i sicrhau bod disgyblion ar waith ac yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'u hamser. Mae'r athrawon yn cynnig modelau iaith da. Fel arfer, mae tasgau dysgu'n pennu disgwyliadau priodol, er nad oes her digonol ar adegau i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn cyflawni gystal ag y gallent.

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda a defnyddiant ystod da o ddulliau ac adnoddau dysgu. Ambell dro, nid oes digon o ymyrraeth i sicrhau cynnydd ym medrau darllen disgyblion a'u gallu i feddwl a rhesymu. Mae'r modd y gwna'r ysgol ddefnydd helaeth o gynorthwywyr dysgu a'u harbenigeddau yn nodwedd gref ar y ddarpariaeth.

Mewn gwarsi, mae athrawon yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ar yr hyn i'w wneud i lwyddo yn eu tasgau a chynhyrchu gwaith da. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'u targedau personol. Mae enghreifftiau o farcio treiddgar sy'n dangos yn glir i ddisgyblion yr hyn i'w wneud i wella safon eu gwaith. Ond yn gyffredinol, mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd y marcio.

Mae amryw o strategaethau ar waith i olrhain cynnydd disgyblion a darparu gwybodaeth sydd yn cael ei defnyddio'n dda i helpu disgyblion ag angen cymorth ychwanegol.



Mae'r rhieni'n derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant a chyfleoedd cyson i drafod gydag athrawon.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r gofal am les disgyblion a'u hanghenion personol yn gryfder yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol wybodaeth fanwl am gefndir disgyblion a'r modd y mae amddifadedd yn effeithio ar eu datblygiad academaidd a chymdeithasol. Gwneir defnydd rheolaidd ac effeithiol o fentrau fel 'amser cylch', 'amser Caleb' ac 'ysgol Dina' i roi cyfle i'r disgyblion leisio pryderon am faterion amrywiol sy'n effeithio arnynt. Mae'r cymhorthydd lles llawn amser yn ymweld â'r dosbarthiadau yn rheolaidd i gasglu pryderon am ddisgyblion unigol a'u lles a throsglwyddo gwybodaeth i sylw'r asiantaethau priodol fel bo'r angen.

Mae'r ysgol yn cynnig cyrsiau rhiantu 'parodrwydd ysgol' i rieni'r plant meithrin ar gyfer cychwyn yn yr ysgol llawn amser. Mae'r 'grŵp maethu' yn darparu'n effeithiol ar gyfer anghenion penodol disgyblion ym mlynnyddoedd 5 a 6.

Mae gan yr ysgol systemau trwyadl iawn ar gyfer adnabod disgyblion sydd ag angen cymorth ychwanegol. Mae'r gynhaliath ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn y brif ffrwd, ac mewn grwpiau o'r neilltu, yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n helaeth gydag asiantaethau lles a gofal. Mae'r cymorth ychwanegol wedi'i dargedu'n glir ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed ac wedi arwain at gynnydd yn natblygiad personol ac addysgol nifer o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn cynnal adolygiadau cynnydd yn rheolaidd ac yn ymgynghori'n dda â rhieni a gofalwyr.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannaol y disgyblion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned glos a chynhaliol sy'n hyrwyddo agweddau cadarnhaol at eraill a'u hanghenion. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch. Caiff cefndir disgyblion ei werthfawrogi ac mae gweithdrefnau i atal ymddygiad gormesol yn effeithiol iawn.

Mae'r adeilad yn cynnig cyfleusterau a lle helaeth ac mewn cyflwr da. Gwna'r ysgol ddefnydd llawn o'r ystafelloedd ar gael, yn cynnwys ystafelloedd nad ydynt yn ystafelloedd dosbarth. Nodwedd dda o'r amgylchedd dysgu yw'r defnydd da o arddangosfeydd symbylus a diddorol. Mae'r safle yn eang ac yn cynnwys mannau penodol ar gyfer ystod o weithgareddau pwrpasol awyr agored yn y cyfnod sylfaen.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan arweinwyr yr ysgol ddealltwriaeth glir o'r heriau sy'n wynebu'r ysgol o ran amddifadedd disgyblion.

Mae'r pennaeth yn rhannu ei gweledigaeth â'r staff, y llywodraethwyr a'r rhieni ac mae cyfrifoldebau staff wedi eu diffinio'n glir. Mae'r staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd fel tîm er mwyn gwella deilliannau'r disgyblion. Cafodd nifer o fentrau a phrosiectau diweddar effaith sylweddol ar les disgyblion. Mae camau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd hefyd wedi arwain at welliant arwyddocaol yng nghyflawniadau'r disgyblion. Mae trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer rheoli perfformiad staff.

Mae'r corff llywodraethol yn cyfrannu at bennu blaenoriaethu'r ysgol ac yn gwybod am agweddau sydd angen eu gwella o ran perfformiad yr ysgol. Mae cyfrifoldebau cwricwlaidd penodol wedi eu pennu ar gyfer aelodau'r corff llywodraethwyr. Er hynny, mae natur y cyswllt yn amrywio ar draws pynciau. Mae hyn, ynghyd â'r defnydd o ddata perfformiad i herio tangyflawniad, yn agweddau heb eu datblygu'n llawn.

Mae'r ysgol yn talu sylw priodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'n gweithredu fel ysgol beilot ar gyfer y cyfnod sylfaen ac wedi sefydlu cyswllt ag ysgol arall yn y teulu o ysgolion i drafod materion yn ymwneud â lles disgyblion a chodi safonau. Mae sylw priodol yn cael ei roi i godi safonau llythrennedd a rhifedd a datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella deilliannau'r disgyblion.

### **Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r trefniadau gwella ansawdd yn seiliedig ar ddefnyddio ystod o dystiolaeth sy'n cynnwys dadansoddi data a rhaglen o ymweliadau arsylwi mewn dosbarthiadau. Mae hyn wedi arwain at nodi blaenoriaethau priodol yn y cynllun datblygu ysgol a gwelliannau mewn agweddau pwysig ar berfformiad yr ysgol. Eto, nid oes digon wedi ei wneud i nodi a mynd i'r afael â rhai agweddau lle mae anwastadrwydd yn yr addysgu a'r marcio ac yng ngwaith ysgrifenedig disgyblion.

Mae cyfleoedd priodol i rieni a disgyblion fynegi eu safbwyntiau ar fywyd a gwaith yr ysgol drwy holiaduron.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu'n ddogfen ddefnyddiol sy'n cynnig arfarniadau ar ystod eang o agweddau. Nid yw'r dadansoddiad o ddata yn gwneud digon o ddefnydd o dueddiadau mewn perfformiad dros gyfnod yn y prif ddangosyddion i nodi agweddau lle mae angen gwelliant. Mae hyn yn enwedig yn y defnydd o gymariaethau ag ysgolion tebyg. Er enghraifft, nid yw'r bwlch sylweddol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a genethod wedi derbyn sylw digonol.

Mae pwyslais da ar ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu, ynghyd â chyfleoedd cynyddol i staff gymryd rhan mewn rhwydweithiau proffesiynol ehangach.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid i sicrhau bod anghenion disgyblion bregus a'r rhai ag anghenion ychwanegol yn cael eu diwallu'n llawn.

Manteisia'r ysgol yn dda ar rannu safle â'r uned gyfeirio cyn-ysgol, ynghyd â'r ganolfan integredig ar gyfer y blynyddoedd cynnar 'Plas Pawb', i gynnal trafodaethau aml asiantaethol. Mae hyn yn arwain at ymyrraeth gynnar yn achos plant ag anghenion amrywiol a sefydlu darpariaeth briodol ar eu cyfer. Mae'r ysgol hefyd yn rhan o brosiect ymchwil adran Seicoleg Prifysgol Bangor sy'n arfarnu agweddau ar y gynhaliaeth i ddisgyblion ag anghenion dwys o ran ymddygiad a dysgu.

Sefydlwyd partneriaethau adeiladol gyda amryw o fudiadau cymdeithasol fel yr heddlu, a'r gwasanaeth iechyd a lles. Mae aelodau o'r gymuned yn aml yn cael gwahoddiad i ddod i'r ysgol i weithio gyda'r disgyblion ar faterion cymunedol a galwedigaethol.

Mae cysylltiadau priodol ag Ysgol Syr Hugh Owen i safoni gwaith ar y cyd ac mae disgyblion y Fagloriaeth yn y chweched dosbarth yn gweithio yng ngerddi'r ysgol fel rhan o'u datblygiad cymunedol. Mae cysylltiadau helaeth gydag ysgolion cynradd lleol hefyd.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu yn rheolaidd gyda'r rhieni a gofawyr ac yn barod iawn i wrando ac ymateb i unrhyw fater sy'n codi.

Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o sefydliadau addysg ôl-16. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â Choleg Menai i ddarparu cyrsiau llythrennedd a rhifedd teulu.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio yn briodol ac yn gwneud defnydd effeithiol o amser, arbenigedd a phrofiad staff, yn cynnwys y tîm helaeth o gymorthyddion dysgu. Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau ar gyfer dysgu ac addysgu ac mae'n gwneud defnydd effeithiol ohonynt.

Mae'r llywodraethwyr yn monitro'r gwariant ac yn cadw cyfran briodol o'r gyllideb wrth gefn. Mae symiau penodol wedi eu pennu ar gyfer gweithredu bwriadau'r cynllun datblygu ysgol.

O ystyried y gwelliant mewn safonau yng nghyfnod allweddol 2, ynghyd â'r deilliannau rhagorol o ran lles disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## **Atodiad 1**

### **Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

#### **Holiaduron disgyblion**

Cwblhodd 113 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Yn gyffredinol, mae ymatebion bron y cyfan o'r disgyblion i bron pob cwestiwn yn gadarnhaol. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn anghytuno bod safonau ymddygiad yn dda yn y gwersi ac ar adegau egwyl a chinio.

#### **Holiaduron rhieni**

Cwblhaodd bron i drigain o'r rhieni neu ofalwyr yr holiadur. Mae lefelau boddhad rhieni â'r ysgol yn uchel. Nododd pob un o'r rhieni/gofalwyr eu bod yn cytuno neu gytuno'n gryf bod eu plant wedi ymgartrefu'n dda yn yr ysgol a'u bod yn gwneud cynnydd da. Mae pob rhiant/gofalwr yn cytuno neu gytuno'n gryf bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn cael eu hannog i gadw'n iach. Mae bron y cyfan o'r rhieni'n dweud bod eu plant yn derbyn cymorth unigol ychwanegol yn ôl yr angen ac i ddatblygu'n unigolion aeddfed a chyfrifol. Mae bron y cyfan o'r rhieni/gofalwyr yn gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. Mae'r rhan fwyaf yn datgan eu bod yn deall trefn gwyno'r ysgol a'u bod yn derbyn gwybodaeth yn gyson am gynnydd eu plant. Mae ychydig o rieni/gofalwyr o'r farn nad yw ymddygiad disgyblion yr ysgol yn dda.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

Iolo Dafydd	Arolygydd Cofnodol
Ray Owen	Arolygydd Tîm
Jeremy Turner	Arolygydd Lleyg
Geraint Wyn Davies	Arolygydd Cymheiriaid
Lisabeth Roberts	Enwebai'r Ysgol

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11